Ffurflen gwrando'n annibynnol ~ Gwella Gyda'n Gilydd

Beth hoffech chi i Llais ei ddeall?

Llais yw'r corff annibynnol cenedlaethol sy'n cynrychioli llais pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym am ddeall eich anghenion a'ch profiadau, ac a fyddwch yn gallu cymryd rhan yn ymgynghoriad Gwella Gyda'n Gilydd, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Bydd yr hyn rydych chi'n ei ddweud wrthym yn ein helpu i lunio ein barn annibynnol, edrych yn fanwl ar y broses ymgynghori a chyflwyno ein sylwadau i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys. Rydym yn croesawu pob barn, boed yn gadarnhaol, yn negyddol, yn gymysg neu'n ansicr.

Ffurflen wrando Llais yw hon. Nid yw llenwi'r ffurflen hon yn golygu eich bod yn

cyflwyno ymateb i ymgynghoriad Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Rydym yn eich annog i rannu eich barn yn uniongyrchol â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys hefyd. Fodd bynnag, nid oes rhaid i chi wneud hynny er mwyn siarad â ni.

Gellir dod o hyd i holiadur ymgynghori Gwella Gyda'n Gilydd yma:

https://biap.gig.cymru/amdanom-ni/gwella-gydan-gilydd/

Mae'n cynnwys manylion am sut i'w gwblhau ar-lein, sut i argraffu copi, a sut i ofyn am gopi papur. Gallwch hefyd sganio'r côd QR.

Mae pob cwestiwn yn ddewisol. Mae ychydig eiriau yn ddigon. Peidiwch â chynnwys enwau, cyfeiriadau nac unrhyw fanylion eraill a allai eich adnabod chi neu rywun arall. Gallwch ychwanegu tudalen arall os oes angen mwy o le arnoch. www.llaiscymru.org/polisi-preifatrwydd

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Llais yma: www.llaiscymru.org neu dewch o hyd i ni ar LinkedIn https://www.linkedin.com/company/llais-cymru/

a Facebook www.facebook.com/PowysLlais/

Gwybodaeth am y cynigion

Ticiwch un ateb ar gyfer pob rhan, neu gadewch yn wag

1. Ydych chi wedi dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch?

☐ Yn llawn ☐ Rhywfaint ☐ Na ☐ Dwi ddim wedi edrych am y wybodaeth

☐ Dwi ddim yn siŵr ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

2. Ydych chi wedi deall y wybodaeth rydych chi wedi'i gweld neu ei chlywed?

☐ Yn llawn ☐ Rhywfaint ☐ Na ☐ Dwi ddim wedi gweld na chlywed unrhyw wybodaeth

☐ Dwi ddim yn siŵr ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

3. Beth fyddai'n eich helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth neu i'w deall yn well?

Cymryd rhan a'r materion yr hoffech i ni eu codi

4. Ydych chi wedi gallu rhannu eich barn â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn y ffordd yr hoffech?

Ticiwch un ateb, neu gadewch yn wag

☐ Do ☐ Rhywfaint ☐ Na ☐ Dim eto ☐ Dydw i ddim eisiau ateb

☐ Dwi ddim yn siŵr ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

5. Oes unrhyw beth yn ei gwneud hi'n anodd i chi gymryd rhan?

Gwybodaeth ddewisol am eich ymateb

Mae hyn yn ein helpu i ddeall pa gymunedau a safbwyntiau rydym wedi clywed ganddynt, a lle mae angen i ni wrando mwy.

6. Ym mha dref neu ardal ehangach rydych chi'n byw, neu pa dref neu ardal sydd agosaf atoch?

Gallwch ysgrifennu "Y tu allan i Bowys" neu "Mae'n well gen i beidio â dweud". Peidiwch â rhoi eich cyfeiriad na'ch cod post llawn.

7. Pa safbwynt rydych chi'n ei rannu? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

- ☐ Fy safbwynt fy hun, fel claf neu rywun sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol
- ☐ Fel gofalwr di-dâl neu rywun sy'n cefnogi neu'n ymweld â perthynas neu ffrind
- ☐ Fel aelod o'r cyhoedd
- ☐ Fel rhywun sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli ym maes iechyd, gofal neu wasanaethau cymunedol
- ☐ Ar ran sefydliad neu grŵp
- ☐ Safbwynt arall _____
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

Os dewiswch ''Mae'n well gen i beidio â dweud'', gadewch y blychau eraill yn wag.

Cadw mewn cysylltiad

Os hoffech barhau i gymryd rhan wrth helpu i lunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gallwch ddewis derbyn diweddariadau neu gael gwybod am gyfleoedd i gymryd rhan.

8. Hoffech chi gael diweddariadau gan Llais?

- ☐ Ie, diweddariadau lleol
- ☐ Ie, diweddariadau cenedlaethol
- ☐ Ie, diweddariadau lleol a cenedlaethol
- ☐ Na

9. Hoffech chi gael gwybod am gyfleoedd i gymryd rhan (e.e. digwyddiadau, trafodaethau, arolygon)?

☐ Ie ☐ Na

10. Eich manylion cyswllt.

11. Rwy'n cytuno i Llais gysylltu â fi drwy e-bost am ddiweddariadau a chyfleoedd i gymryd rhan.

☐ Ie ☐ Na

Diolch am ddweud wrthym beth sy'n bwysig i chi.

Anfonwch eich ffurflen i Llais.

Llais Y Drenewydd , Tŷ Ladywell, Y Drenewydd, Powys, SY16 1JB

powysengagement@llaiscymru.org

Dyddiad cau: 5ed Ionawr 2027